Drwy gwblhau'r arolwg hwn ar gyfer Ymddiriedolaeth Natur Gwent, cewch gyfle i ennill un o bump taleb NHBS gwerth £50 (https://www.nhbs.com/).

Telerau ac Amodau:

Dyma delerau ac amodau Gwobr Fawr Arolwg Gwarchodfeydd Natur Ymddiriedolaeth Natur Gwent 2022. Ymddiriedolaeth Natur Gwent sy'n trefnu'r gystadleuaeth. Drwy dderbyn y Telerau ac Amodau, a chyflwyno'r arolwg gyda'ch caniatâd i gael eich cynnwys yn y gystadleuaeth, rydych yn ymrwymo i gytundeb gyda'r trefnwyr.

Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i addasu'r telerau ac amodau hyn heb rybudd.

Bydd y gystadleuaeth yn cau ddydd Mercher 1af Mehefin 2022. Mae'n rhaid i'r cynigion gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau. Dim ond un cynnig a ganiateir i bob person.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig yn ôl unrhyw bryd.

**1 Cymhwysedd**

Mae'r gystadleuaeth ar agor i unrhyw un sy'n cwblhau arolwg ac yn ei gyflwyno ar-lein neu fel arall.

Dim ond un arolwg (neu un cynnig ar gyfer y gystadleuaeth) i bob person a ystyrir yn ddilys. Os byddwch yn cyflwyno mwy nag un arolwg, ni fydd y rhai ychwanegol yn cael eu cyfrif.

Mae penderfyniad y trefnydd ynglŷn â chymhwysedd yn derfynol.

Os ydych chi o dan 18 oed, mae'n rhaid i'ch rhiant neu'ch gwarcheidwad roi caniatâd i chi gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn cadw pob hawl i'ch gwahardd os ydych yn ymddwyn mewn ffordd sy'n mynd yn groes i fwriad neu ysbryd y wobr fawr neu'r gystadleuaeth.

**2: Sut i Gymryd Rhan**

Bydd y gystadleuaeth yn agor ar 1af Ebrill 2022. Gallwch gymryd rhan am ddim, cyn belled â'ch bod wedi cwblhau a chyflwyno'ch arolwg.

**3: Dewis Enillydd**

Bydd enillydd yn cael ei ddewis ar hap o fewn 7 Diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r gystadleuaeth i ben.

Hysbysir yr enillydd drwy e-bost neu alwad ffôn (gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a chaniatâd a ddarparwyd) o fewn 7 diwrnod.

Bydd yr enillwyr i gyd yn cael taleb NHBS gwerth £50 bob un. Mae'n debyg y bydd telerau ac amodau eraill yn berthnasol, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni.

Os na fydd yr enillydd yn ymateb i Ymddiriedolaeth Natur Gwent o fewn 14 diwrnod ar ôl cael ei hysbysu, bydd yn colli'r hawl i'r wobr, a bydd gan Ymddiriedolaeth Natur Gwent hawl i ddewis enillydd arall yn unol â'r broses a ddisgrifir uchod.

Bydd y wobr yn cael ei hanfon at yr enillydd o fewn 14 diwrnod i ymateb i Ymddiriedolaeth Natur Gwent.

Nid oes modd trosglwyddo'r wobr na'i chyfnewid am ddim byd arall, ac ni fydd arian parod yn cael ei gynnig yn ei lle. Os bydd amgylchiadau'n codi sydd y tu hwnt i reolaeth Ymddiriedolaeth Natur Gwent, cedwir yr hawl i roi gwobr arall yn lle'r wobr hon (gyda gwerth cyfatebol neu uwch) os bydd angen.

Bydd penderfyniad Ymddiriedolaeth Natur Gwent am unrhyw elfen o'r wobr fawr neu'r gystadleuaeth yn derfynol ac yn eich rhwymo, ac ni fydd unrhyw ohebu ynghylch hyn.

**4: Diogelu Data**

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni ac rydym yn addo cadw'ch manylion personol yn saff ac yn ddiogel. Ni fyddwn byth yn gwerthu eich data.

Mae Polisi Preifatrwydd Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn berthnasol i'r gystadleuaeth. Gallwch ddarllen y polisi preifatrwydd yn https://www.gwentwildlife.org/privacy-policy

**5: Cyffredinol**

Mae'r wybodaeth yn y Telerau ac Amodau hyn yn gywir, ond mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn cadw'r hawl i newid unrhyw ran heb rybudd ymlaen llaw. Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth, byddwn yn cymryd bod pawb wedi cytuno i fod yn rhwym wrth y Telerau ac Amodau hyn. Os bydd unrhyw un yn torri'r Telerau, bydd ei gynnig ar gyfer y gystadleuaeth yn cael ei ystyried yn annilys. Os bydd hyn yn digwydd, ac nad ydym yn gwybod tan ar ôl i'r wobr gael ei rhoi, mae'n bosib y bydd y trefnwyr yn gofyn am y wobr yn ôl.